# Datganiad Tir Cyffredin rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin “Yr Awdurdod Cynllunio Lleol” a *insert* “Y Tirfeddiannwr’’.

| |
|---|
| **Cyfeiriad y Safle:**<br>Tir i'r gogledd o Dan Y Crug, Llanymddyfri |
| **Cyfeirnod(au) Cynllunio / Cyfeirnod(au) Cynllun Lleol:**<br>Cyfeirnod Cynllun Datblygu Lleol Adneuo – SeC15/h1<br>Caniatâd Cynllunio Llawn - E/26681 |
| **Dyddiad:** |

Draft

**<u>Diben y Datganiad Tir Cyffredin hwn</u>**

Paratowyd y Datganiad Tir Cyffredin hwn gan ddau barti i fynd i'r afael â materion y gellir eu cyflawni mewn perthynas â'r datblygiad ar Dir i'r gogledd o Dan Y Crug a ddangosir yn Atodiad 1.

Mae’n mynd i’r afael â’r dangosyddion cyflawni canlynol:

1. Statws cynllunio'r safle.
2. Unrhyw gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflwyno cais/ceisiadau i’w caniatáu cyn y gall y datblygiad ddechrau'n gyfreithlon.
3. Unrhyw gynnydd yng ngwaith asesu’r safle sy’n ofynnol ar gyfer cyflwyno cais a/neu cyn y gall datblygiad ddechrau’n gyfreithlon.
4. Unrhyw wybodaeth berthnasol am hyfywedd ariannol sy'n effeithio ar ddechrau'r datblygiad.
5. Unrhyw wybodaeth berthnasol am berchnogaeth safle a chyfyngiadau mynediad sy'n effeithio ar yr asesiad o’r safle neu ddechrau'r datblygiad.
6. Unrhyw wybodaeth berthnasol am ddarparu’r seilwaith y bydd ei hangen i gefnogi / galluogi'r datblygiad.
7. Cyfraddau cyflenwi ac adeiladu disgwyliedig.

At ddibenion y Datganiad hwn, Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r “Awdurdod Cynllunio Lleol” a [i'w fewnosod gan Dirfeddiannwr / Asiant] yw'r "Tirfeddiannwr”.

## 1. Statws cynllunio'r safle.

Mae'r safle 3.26 hectar sydd o dan sylw wedi'i gynnwys yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo o dan gyfeirnod SeC15/h1, ac mae ganddo ddyraniad o gyfanswm o 61 o anheddau. Mae'r safle yn eiddo i [i'w fewnosod gan Dirfeddiannwr / Asiant] ac mae caniatâd cynllunio wedi'i roi.

Mae rhagor o wybodaeth am y statws cynllunio wedi'i hamlinellu isod.

## 2. Unrhyw gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflwyno cais/ceisiadau i'w caniatáu cyn y gall y datblygiad ddechrau'n gyfreithlon.

Mae'r safle yn elwa o Ganiatâd Cynllunio Llawn (E/26681) ar gyfer 61 o anheddau, a roddwyd ar 17/9/2014. Cymeradwywyd Tystysgrif Cyfreithlondeb ar 15/08/2018 ar gyfer cychwyn caniatâd cynllunio E/26681.

Mae datblygwyr yn barod ac wrthi yn paratoi i ddatblygu'r safle. Mae ceisiadau cynllunio PL/02736 (sy'n ceisio Diwygiad Ansylweddol i E/26681), a PL/02810 (sy'n ceisio Addasiad o A.106 ar E/26681), yn [ar adeg ysgrifennu] cael eu hystyried gan Dimau Cynllunio a Chyfreithiol yr Awdurdod Lleol.

## 3. Unrhyw gynnydd yng ngwaith asesu'r safle sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno cais a/neu cyn y gall datblygiad ddechrau'n gyfreithlon.

Mae archwiliadau o'r safle a gwaith tirfesur wedi'u cwblhau er mwyn llunio'r adroddiadau sy'n ofynnol fel rhan o gais cynllunio E/26681 ar gyfer Caniatâd Cynllunio Llawn. Cafodd yr adroddiadau canlynol eu cyflwyno gyda'r cais cynllunio ac maent ar gael i'w gweld nawr ar wefan y Cyngor:

- Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd
- Asesiad Trafnidiaeth
- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Côd Cartrefi Cynaliadwy
- Prif Wasanaethau, Amodau'r Tir a Strategaeth Draenio
- Manyleb ac Amserlenni Argymhellion Plannu
- Asesiad Perthi
- Arolwg Coed a Chynllun Cyfyngiadau
- Cynllun Gwarchod Coed ac Asesiad Goblygiadau Coedyddiaeth

Draft

## 4. Unrhyw wybodaeth berthnasol am hyfywedd ariannol sy'n effeithio ar ddechrau'r datblygiad.

Gwnaed gwaith hyfywedd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig fel rhan o'r broses o wneud cais cynllunio, gan gynnwys llunio a llofnodi Cytundeb A.106. Fel y nodwyd uchod yn adran 2, mae cais cynllunio cyfredol yn cael ei ystyried mewn perthynas ag addasiad i Gytundeb A.106. Mae hwn, a'r asesiad hyfywedd yn cael eu hystyried gan Briswyr a Thîm Cyfreithiol yr Awdurdod Lleol. Mae'r ymgeisydd yn hyderus y bydd y datblygiad yn mynd rhagddo yn unol â'r gwaith hyfywedd a wnaed eisoes, ac na fydd angen gwneud unrhyw waith pellach.

## 5. Unrhyw wybodaeth berthnasol am berchnogaeth safle a chyfyngiadau mynediad sy'n effeithio ar yr asesiad o'r safle neu ddechrau'r datblygiad.

**Perchenogaeth**

Mae rhydd-ddaliad y tir yn eiddo i [i'w fewnosod gan Dirfeddiannwr / Asiant]

**Mynediad**

Bydd mynediad uniongyrchol i'r safle o gefnffordd yr A40. Mae'r mynediad arfaethedig wedi'i gynllunio i adlewyrchu gofynion yr Awdurdod Lleol a'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

**Hygyrchedd**

Lleolir y safle ar gyrion gorllewinol tref Llanymddyfri, ar ochr ogleddol prif gefnffordd yr A40, tua hanner ffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberhonddu. Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli'n gynaliadwy o fewn pellter cerdded i'r holl amwynderau lleol sydd yn y dref.

Rhagwelir y bydd symudiadau cerddwyr a beiciau i'r datblygiad ac oddi yno i mewn i'r dref yn sylweddol o ystyried yr agosrwydd at gyfleusterau a gwasanaethau. Mae llwybrau troed o fewn elfennau perthnasol y datblygiad ac sy'n gysylltiedig â nhw yn gynhwysfawr ac yn addas i bobl. Bydd cerddwyr yn gallu teithio drwy'r safle a chysylltu â'r ardaloedd preswyl cyfagos i'r gorllewin yn ddiogel.

Mae gwasanaethau bysiau cyhoeddus yn pasio tu blaen y safle ac yn caniatáu teithio i Aberhonddu i'r dwyrain a Chaerfyrddin i'r gorllewin. Yn ogystal mae gorsaf drenau Llanymddyfri, ar reilffordd Calon Cymru, yn hygyrch ar droed o'r datblygiad arfaethedig.

## 6. Unrhyw wybodaeth berthnasol am ddarparu'r seilwaith y bydd ei hangen i gefnogi / galluogi'r datblygiad.

Rydym o'r farn bod ymatebion Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Phriffyrdd a Thrafnidiaeth Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â'r ceisiadau cynllunio a

Draft

nodwyd uchod yn dangos, yn amodol ar yr amodau a'r cytundebau a nodwyd, nad oes unrhyw wrthwynebiadau heb eu datrys.

Yn ogystal â sylwadau a dderbyniwyd ar y ceisiadau a nodwyd uchod, derbyniwyd sylwadau gan CNC a DCWW mewn perthynas â dyraniad y safle ar gyfer tai yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, fel a ganlyn: [O ystyried bod y datblygiad arfaethedig wedi'i gychwyn yn gyfreithlon, byddai sylwadau CNC dim ond yn berthnasol pe bai cais A.73 yn cael ei gyflwyno, ac nid yw hyn yn wir].

**CNC**

Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Parth Llifogydd 2 (Afonydd), gerllaw parth C2, angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Dalgylch ACA ffosfforws Afon Teifi.

**DŴR CYMRU WELSH WATER**

Cydnabuwyd bod y safle wedi'i neilltuo drwy ganiatâd cynllunio presennol, ac o ganlyniad ni chodwyd unrhyw bryderon gyda'r dyraniad.

**Effaith ar y Gymuned/yr Iaith Gymraeg**

Bydd cynllun yn y lleoliad hwn yn darparu ystod a dewis o fathau o dai a deiliadaethau, gan gynnwys elfennau fforddiadwy. Nid ystyrir y bydd datblygiad y safle ar gyfer adeiladu tai yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y Gymraeg nac unrhyw gymunedau lleol.

**7. Bwriadau cyflawni'r tirfeddiannwr, pryd y disgwylir dechrau adeiladu a'r cyfraddau adeiladu disgwyliedig:**

Mae'r tabl isod yn dangos Taflwybr Tai y Cynllun Adneuo a amlinellir yn Atodiad 7 y Cynllun Adneuo:

| Amserlen (Blynyddoedd) | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr Anheddau a Gwblhawyd | 10 | 20 | 20 | 11 | | | | |

Yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed hyd yma, gellir cadarnhau y caiff y safle ei ddatblygu o fewn yr amserlenni a nodir uchod.

**Asesiad Cyflawni**

Yn seiliedig ar yr wybodaeth uchod, ystyrir bod tystiolaeth glir yn nodi y bydd modd cyflawni gwaith y safle o fewn yr amserlenni a nodir yn Nosbarthiad Tai'r Cynllun Adneuo.

Mae dyraniad y safle yn y Cynllun Datblygu Lleol at ddibenion preswyl wedi cael ei ystyried yn llawn trwy'r fethodoleg asesu safleoedd. Fel rhan o'r broses asesu hon, paratowyd ffurflen safle fanwl. Ystyrir fod polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol yn gadarn ac yn gyflawnadwy, eu bod yn deillio o sylfaen dystiolaeth gadarn a'u bod wedi'u llunio gan

Draft


ystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd mewn ffordd sy’n gyson ag ef. Mae'r dyraniad, a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer rhan o anghenion tai yr anheddiad hwn.

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd ar ran yr Awdurdod Cynllunio Lleol** | |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd ar ran y Tirfeddiannwr** | |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |

Drafft

# **Atodiad 1** Lleoliad y Safle a Chyd-destun




Dyraniad Tai SeC15/h1 Tir i'r gogledd o Dan Y Crug, Llanymddyfri. Crynodeb - Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo